# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 03.09.14

**Yn bresennol**: Cyng. Eryl Jones Williams, Cyng. Annwen Hughes, Cyng. Elfed Williams

**Hefyd yn bresennol:** Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr), Gwenan M Williams (Rheolwr Gwarchod Y Cyhoedd (Iechyd a Diogelwch a Thrwyddedu), Mr Ian Williams (Heddlu Gogledd Cymru), Ms Wendy Kay (Heddlu Gogledd Cymru) a Lowri H Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu),

**1. CROESO**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Eryl Jones Williams. Cyflwynwyd y panel ar swyddogion i bawb oedd yn bresennol.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS I AMRYWIO TRWYDDED EIDDO – UNIVERSITY PLAICE, 21 FFORDD CAERGYBI, BANGOR UCHAF, GWYNEDD.**

**Ar ran yr eiddo:** Mr Mehemet Ali Usal a Miss Nia Haf Davies

**Aelodau Lleol:** Cyng June Marshall, Cyng Mair Rowlands

**Eraill a fynychwyd:** Cyng. Dinas Bangor Keith Marshall, Mrs Arfona Davies (Aelod Cymdeithas Bangor Uchaf)

**Ymddiheuriadau:** Cynghorydd Dinas Rhys Taylor, Cynghorydd Dinas John Martin a Mr Keith Thomas (Gwasanaeth Tan ac Achub)

**Adroddiad ac argymhelliad yr Adain Trwyddedu.**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am amrywiad trwydded eiddo University Plaice, Bangor Uchaf i ymestyn oriau trwyddedig safonol. Lleolir yr eiddo ymysg rhes o fusnesau a siopau ym Mangor Uchaf, ac fe ddarperir lluniaeth hwyr y nos i'w fwyta oddi ar yr eiddo. Mewn gwrandawiad blaenorol a gynhaliwyd 30.9.13, bu i'r Is Bwyllgor ganiatáu ymestyniad oriau darparu lluniaeth hwyr y nos o 2:30am ar nos Wener a nos Sadwrn i 3:30am.
Rhoddwyd manylion am yr oriau cyfredol a'r oriau arfaethedig.

Yn dilyn cyfnod ymgynghori priodol, derbyniwyd gwrthwynebiadau i'r cais gan yr Aelodau Lleol, Cyngor ac Aelodau Unigol Dinas Bangor, Preswylydd cyfagos a Heddlu Gogledd Cymru yn cyfeirio at y ffaith;

- bod yr eiddo eisoes wedi derbyn ymestyniad oriau gweithgareddau trwyddedig
- bod ymestyniad pellach yn mynd tu hwnt i oriau eiddo trwyddedig cyffelyb ym Mangor.

Roedd yr Aelodau Lleol yn gwrthwynebu ar sail amcanion Trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus a throsedd ac anrhefn.

Roedd Heddlu Gogledd Cymru yn gwrthwynebu'r cais gan fod potensial i'r ymestyniad oriau ar nos Sul ac yn ystod yr wythnos danseilio'r amcanion trwyddedu o atal trosedd ac anrhefn a niwsans

cyhoeddus. Nodwyd y buasai'r Heddlu yn cefnogi cais am amser ychwanegol hyd at 3:00am ar nos Iau yn unig - hyn yn cyd fynd ag oriau eiddo trwyddedig cyffelyb ym Mangor.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau
- Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

Wrth ymhelaethu ar y cais nododd yr ymgeisydd bod angen cysondeb ymysg busnesau tebyg. Dadleuwyd bod busnes cyffelyb yn darparu lluniaeth poeth tu allan i oriau trwyddedu ac mai tegwch fuasai iddo yntau gael bod ar agor hefyd i weini bwyd gan leihau'r niferoedd o bobl yn casglu mewn un lle. Ychwanegodd mai tymhorol oedd y busnes ac y buasai hanner awr ychwanegol yn adfer oriau a gollwyd yn ystod misoedd yr Haf.

Mewn ymateb i gwestiwn, mynegodd y buasai yn barod i gyflogi goruchwyliwr drysau am yr oriau ychwanegol i ymdrin ag unrhyw anrhefn ar yr eiddo. Ychwanegwydd bod teledu cylch cyfyng eisoes yn yr eiddo a'i fod yn barod i gyd weithio gyda'r Heddlu.

Mewn ymateb i'r cais nododd cynrychiolydd o'r Heddlu nad oeddynt yn gefnogol i'r cais. Mewn ymgais ym Mangor i osgoi trosedd ac anrhefn drwy gydweithio da a rhoi cytundebau cyfartal mewn oriau trwyddedu i fusnesau tebyg, buasai derbyn cais am ymestyniad oriau yn gosod cynsail. Rhaid cytuno ar derfyn amser priodol. Derbyniwyd 5 achos o gwyn am yr eiddo; 4 wedi eu cyfeirio gan Mr Usal ei hun. Yr Heddlu yn fodlon gyda'r modd y mae'r eiddo yn cael ei reoli.

O dan Adran 9.4.182 (addasiad Hyd 2013) o Ddeddf Trwyddedu 2003, mae gan yr Heddlu, fel Awdurdod Cyfrifol hawl i wrthwynebu ar sail y tebygolrwydd y buasai caniatáu y cais yn tanseilio egwyddorion trosedd ac anrhefn - nid oes angen tystiolaeth.

Mewn ymateb i'r cais nododd yr Aelodau Lleol eu bod yn cytuno gyda datganiad yr Heddlu. Rhaid sicrhau tegwch, ond buasai ymestyn oriau yn gosod cynsail. Nodwyd bod Bangor Uchaf yn ardal breswyl ac angen ystyried mwynderau trigolion cyfagos.

Mewn ymateb i'r sylw nododd preswylydd cyfagos bod cyfrifoldeb ar yr Awdurdod Lleol i ddiogelu a gwarchod cymunedau.

Mewn ymateb i'r cais nododd Cynghorydd Dinas Bangor ei fod yn cytuno gydag argymhellion yr Heddlu a chytuno i ymestyn oriau ar nos Iau yn unig i 3:00am.

Wrth grynhoi ei gais nododd yr ymgeisydd mai tegwch oedd ei brif ystyriaeth a gofynnwyd i'r Adain Trwyddedu arsylwi eraill fel nad ydynt yn darparu lluniaeth poeth tu allan i oriau trwyddedig.

Ategodd Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd y buasai'r Adain Trwyddedu yn ymchwilio i'r honiadau a waned parthed yr eiddo oedd yn darparu lluniaeth poeth tu allan i'r oriau trwyddedig.

Gadawodd y partïon perthnasol y cyfarfod.

Trafodwyd y cais gan aelodau'r Is Bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan roddi sylw penodol i egwyddorion Deddf Trwydded 2003 sef

- Rhwystro Trosedd ac Anhrefn

- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

Roedd yr Is Bwyllgor o'r farn na ellid caniatáu oriau ychwanegol ar sail bod eiddo arall yn darparu lluniaeth poeth tu allan i'w horiau trwyddedig. Caniatawyd yr hanner awr ychwanegol ar nos Iau er mwyn dod ac oriau trwyddedu yn gyfartal a busnesau eraill. Cytunwyd bod tegwch ar draws y busnesau yn atal ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy osgoi sefyllfa lle daw pobl at ei gilydd mewn un lle. Derbyniwyd barn yr Heddlu a chadarnhawyd cyfeiriad at yr Adran 9.4 182 Deddf Trwyddedu 2003.

**PENDERFYNWYD**
**GWRTHOD Y CAIS AR SAIL NA ELLID CANIATÁU ORIAU YCHWANEGOL AR SAIL BOD EIDDO ARALL YN DARPARU LLUNIAETH POETH TU ALLAN I'W HORIAU TRWYDDEDIG. . CANIATAWYD YR HANNER AWR YCHWANEGOL AR NOS IAU (o 2:30am i 3:00am) ER MWYN DOD AC ORIAU TRWYDDEDU YN GYFARTAL Â BUSNESAU ERAILL YM MANGOR.**

Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr yn cadarnhau yn ffurfiol i bawb oedd yn bresennol benderfyniad yr Is-bwyllgor ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 2:0 a daeth i ben am 2:50pm